Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Medi 2ail 2025 yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of* **Penbryn Community Council** *Meeting held on Tuesday, September 2nd 2025 at Penbryn Memorial Hall*

Yn bresennol/*Presennol* – Cynghorwyr/*Councillors* Melva Phillips, Jonathan Rees, Walwyn Jones, Barri Davies, William Anwyl, Elen Mathias, Teifi Davies, Delfryn Owens

**1 Ymddiheuriadau/Apologies**

Cynghorwyr/*Councillors* Caerwyn Owen, Gareth Evans, Gwyn James

**2 Datgelu Buddiannau Personol/Disclosure of Personal Interests**

DIM BYD PERTHNASOL/*NO RELEVANT ISSUES*

**3 Materion Personol/Personal Matters**

Cadarnhawyd bod Caerwyn wedi mynd i'r Ysbyty yn Abertawe am driniaeth bellach. Mynegwyd dymuniadau yr holl aelodau am wellhad buan iddo yn y dyfodol. Cydymdeimlwyd â Delfryn ar golli brawd yn ddiweddar.

*It was confirmed that Caerwyn had recently returned to hospital in Swansea for further treatment. The members expressed their best wishes for a speedy recovery in the future. Members' thoughts were with Delfryn having lost a brother recently.*

**4 Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – 1/7/25**

Cynigiwyd eu bod yn gywir gan Teifi a'i eilio gan Walwyn.

*Proposed to be correct by Teifi and seconded by Walwyn.*

**5 Materion yn Codi/Matters Arising**

i) Bancio Ar-Lein/*Internet Banking*

Nododd y Clerc ei fod wedi cynnal cyfarfod gyda Delfryn er mwyn dechrau'r broses o sefydlu cyfrif banc ar-lein i'r Cyngor Cymuned. Mae cam cyntaf y broses wedi'i gwblhau, a bwriad y Clerc yw trefnu apwyntiad gydag ymgynghorydd o **Bank of Scotland** yng nghangen Banc Lloyds yng Nghaerfyrddin cyn bo hir. Y nod yw sicrhau ein bod yn cael cyfrif hollol addas ar gyfer ein hanghenion.

*The Clerk stated that he had convened a meeting with Delfryn in order to start the process of establishing an Internet Banking account for the Community Council. The first step has been completed, and the Clerk's intention is to arrange an appointment with a* **Bank of Scotland** *adviser at Carmarthen's Lloyds branch in the near future. The aim is to ensure an appropriate account for the Council.*

ii) Diogelwch Defnyddwyr yr A487/*Users' Safety on the A487*

Mynegwyd rhagor o bryder ynghylch diogelwch y ffordd rhwng Tanygroes a Sarnau. Adroddodd Teifi hanes damwain arall a ddigwyddodd ger Temple Bar ar Awst 25ain pan welwyd cerbydau yr heddlu a'r gwasanaethau brys yno am oriau maith. Gwnaed cais arall am ohebu pellach gyda'r Asiantaeth Briffyrdd yng Nghonwy er mwyn eu hysbysu. Cytunodd y Clerc i ohebu gyda hwy unwaith eto. Trafodwyd yr angen am rybuddion ymlaen llaw i yrwyr fod yna gyffyrdd cudd a pheryglus ar hyd y ffordd. Codwyd y pwynt bod angen ail baentio rhai o'r llinellau gwyn dwbwl ar hyd y ffordd. Y pwynt arall a godwyd oedd tybed a fyddai modd gwahodd cynrychiolydd o Heddlu Dyfed Powys i fynychu un o'n cyfarfodydd?

*Further concern was raised safety issues along the route between Tanygroes and Sarnau. Teifi informed us of details regarding an accident near Temple Bar on August 25th when there were emergency vehicles and police vehicles present for hours. A request for further correspondence with the Trunk Road Agency was made. The Clerk agreed to inform them once more of our continued concerns. The members spoke of the need for advanced warnings for drivers of impending concealed junctions along the route. There was the need to repaint some of the double white lines along this stretch of road. It was also asked whether we could invite a representative from Dyfed Powys Police to attend a Council meeting?*

**6 Cyllid/Finance**

i) Balans Cyfrif/*Account Balance*

Balans Blaenorol/*Previous Balance* £16037.85

Taliadau/*Payments*
Ad-daliad Gareth *Reimbursement* (Bois y Mowo) £90.00

Cyflog Clerc/*Clerk Salary* £780.00

Costau Bancio/*Banking Charges* £4.75

Costau Bancio/*Banking Charges* £5.25

Derbyniadau/*Received*
Praesept/*Precept* £5000.00

Balans Newydd/*New Balance* £20157.85

ii) Taliadau i'w Cymeradwyo/*Payments to be Approved*

Costau Archwilio Cyfrifon/*Auditing Accounts Costs*

| | |
|---|---|
| 2020/21 | £985.00 |
| 2021/22 | £390.00 |
| 2022/23 | £585.00 |
| 2023/24 | £625.00 |

Cymeradwyd y taliadau'n unfrydol/*Payment unanimously approved*

Hysbyseb Y Gambo *Advertisement* £9.00
Cymeradwyd/*Approved*

iii) Eisteddfod Y Garreg Las *Eisteddfod*
Yn dilyn trafodaeth lawn cytunwyd i ohirio talu cyfraniad ariannol tuag at yr Eisteddfod tan ddiwedd y flwyddyn hon.
*Following a comprehensive discussion it was decided to postpone the payment of a financial contribution until the end of this financial year.*

**7 Cynllunio/Planning**

i) A250588 Opposite Tanygroes Car Dismantlers
YN GEFNOGOL IAWN I'R CAIS/VERY SUPPORTIVE OF APPLICATION

ii) A250499 Glan yr Odyn, Tresaith
DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

**8 Gohebiaeth/Correspondence**
DIM GOHEBIAETH/NO CORRESPONDENCE

**9 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

i) Mainc Tresaith/*Tresaith Bench*

Derbyniwyd cais oddi wrth Joel Williams yn gofyn a fedrai noddi gosod mainc newydd, neu adnewyddu'r un bresennol, yn Nhresaith, a'i chysegru er cof am berthynas oedd yn hoff iawn o ymweld â'r ardal. Cytunodd yr aelodau i gymeradwyo'r cais hwn gan awgrymu ei fod yn dewis mainc o ddeunydd gwydn a chynaladwy o bren caled neu blasting cryf. Awgrymwyd hefyd y dylai o bosibl brynu mainc oddi wrth yr un cwmni, sef Second Life, a ddewiswyd gan y Cyngor Cymuned yn ddiweddar.

*A request was received from Joel Williams asking if he could sponsor a new bench, or repair an existing one, at Tresaith, and dedicate it in the memory of a relative who dearly loved the area? The members approved the request and suggested he ought to select a bench made of sustainable and tough material namely hard wood and plastics. It was also suggested that he ought to select a bench by Second Life, the very same company selected by this Council recently.*

ii) Tai Bach Tresaith/*Tresaith Toilets*

Nododd y Clerc fod angen dechrau symud ymlaen i ddod i ryw fath o benderfyniad ynghylch dyfodol y cyfleusterau hyn. Wrth wneud hyn, cydnabu'r anawsterau gan ystyried cyn lleied o wybodaeth a ffeithiau pendant sydd gennym, a'n dyletswydd i warchod buddiannau plwyfolion. Dyma'r penbleth sydd yn wynebu sawl Cyngor Cymuned. Dymuniad y Clerc oedd annog yr aelodau i gnoi cil dros y mis nesaf i gynnig rhyw fath o farn neu safbwynt, ynghyd â syniadau newydd sut i'w cynnal, erbyn cyfarfod mis Hydref. Cynigion eraill a wnaed oedd gohebu â'r Cynghorydd Chris James (Cenarth), Cyngor Sir Ceredigion ac aelodau etholedig yr ardal hon.

*The Clerk stressed the need to start moving forward in resolving the future of these conveniences. In doing so, he acknowledged the difficulties considering the lack of definite information and facts, and our obligation to guard parishioners' rights. These are the difficulties facing many Community Councils. The Clerk asked the members to consider matters over the next month in order to offer some kind of proposal, as well as new ideas how to finance them, by October's meeting. Other proposals made were to correspond with Councillor Chris James (Cenarth), Ceredigion County Council and the area's elected representatives.*

**10 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting**

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Hydref 7ed 2025 am 7.30 y.h.
*The next meeting will be held on Tuesday, October 7$^{th}$ 2025 at 7.30 p.m.*